

2012 Rhif 1170 (Cy. 143)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Glanconwy i Eglwys-bach, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012

Wedi'i wneud

27 Ebrill 2012

Yn dod i rym

8 Mai 2012

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Maentwrog – Man i'r Dwyrain o Gonwy (A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu neu ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Mai 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Glanconwy i Eglwys-bach, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (*“exempted vehicle”*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (*“works period”*) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 8 Mai 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” (*“the length of the trunk road”*) yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A470 rhwng Glanconwy ac Eglwys-bach ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn tua'r de o'i chyffordd â

Ffordd Las hyd at bwynt 200 metr i'r de o Gyffordd Eglwys-bach.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, heblaw cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd, yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 ar waith.

6. Ni fydd darpariaethau erthygl 3, 4 a 5 yn gymwys ond yn ystod yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y

27 Ebrill 2012

GARETH MORGAN

Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.